

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangywer  
16fed o Fedi, 2013**

**Presennol:** Linda Morris (Cadeirydd), Olwen Jones, John Morris, Eleri Jones, Gwyn Roberts, Alan Evans (Cyngorydd Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Emyr Jones a W D Williams
2. Nid oedd datganiadau o ddiddordeb / buddiant mewn materion ar yr agenda
3. Nid oedd cyflwyniadau gan y cyhoedd ar fater ar yr Agenda
4. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 15fed o Orffennaf 2013
- 5. Materion yn codi o'r Cofnodion:**

6.iii Derbyniwyd manylion pellach am gofeb i filwyr o Gymru yng ngwlad Belg a chytunwyd i gyfrannu £50.

6.iv Derbyniwyd gwybodaeth am Gynghrair Cymunedau Cymraeg a chytunwyd i ymaelodi.

6.iv Derbyniwyd ymateb am Gynllunio Sir Ddinbych yn nodi pryderon am y datblygiad arfaethedig ym Modelwyddan.

7.vii Derbyniwyd gohebiaeth parthed carreg fedd a chyfarwyddwyd y Clerc i gysylltu gydag Ymgymerywyr yn Ninbych.

9 – Materion eraill: Bydd y coed sydd wedi tyfu'n uchel ar gyfer Tŷ'n Gwrych yn cael sylw yn fuan; mae'r tyfiant rhwng y ddwy afon yn Rhosygwaliau wedi ei docio gan ei wneud yn haws i weld wrth yrru; diolchwyd i Gwyn Roberts am dorri'r gangen oedd yn peri pryder yn y fynwent ac i John Morris am waith clirio tyfiant yn y fynwent.

Gofynnwyd i'r Clerc anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i geisio torri ar y gwrych a thocio'r coed ar hyd terfyn y fynwent i lawr o Dŷ Newydd a rhoi sylw i'r eiddew. Bydd y Clerc hefyd yn holi am y gwair ar lawr.

Cytunodd Alan Evans i wneud ymholiadau am finiau i'r fynwent.

**6. Trafod Gohebiaeth :**

**i. Parc Cenedlaethol Eryri:**

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais Tŷ Newydd
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i gais Rhydwen
- 3) Derbyniwyd gwybodaeth am gais i osod llinellau trydan uwchben tir yn Rhosygwaliau

- 4) Cymeradwywyd cais NP5/70/136, sef cynllun dŵr Afon Glyn ger Pant yr Onnen

ii. **Gwynedd:**

- 1) Derbyn gwybodaeth am ymddeoliad Mr I G Thomas, Peiriannydd Ardal Meirionnydd ynghyd a rhestr cyfrifoldebau'r adran. Cytunwyd i anfon i ddiolch i Mr Thomas am ei waith ar hyd y blynyddoedd.
- 2) Nodwyd amserlen ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Datblygu Gwynedd a Môn
- 3) Derbyniwyd gwybodaeth am grant i sefydlu presenoldeb ar y we a chytunwyd i wneud cais am y grant gyda'r bwriad o gyd-weithio gyda Chynghorau eraill Penllyn dan adain Partneriaeth Penllyn.

iii. **Un Llais Cymru:**

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am gyflogau i Glercod a chytunwyd i ystyried hwn ar ôl derbyn arweiniad.
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth a Bwyllgor Ardal Meirionnydd ar 25/9/13

iv. **Arall:**

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth gan dîm mapio Mynediad Agored a chytunodd y Cadeirydd i'w wirio.
- 2) Nodwyd gwybodaeth am offer chwarae

**7. Materion ariannol:**

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol a nodwyd fod ail daliad y praesept wedi dod i law.
- 2) Arwyddwyd Ffurflen Hacker Young a nodwyd cysoniad John Roberts
- 3) Cytunwyd i dalu Ffi Hacker Young (£72) ac i gwblhau Holiadur Hacker Young

**8. Partneriaeth Penllyn – rhoddodd y Clerc adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf**

**9. Unrhyw Fater Arall**

- 1) Adroddodd Alan Evans fod Swyddogion yn rhoi sylw da i'r defnydd o'r biniau yn y gilfach. Bydd mwy o finiau yn cael eu darparu gyda

chloeon ac agoriad i bob annedd sydd â hawl i'w defnyddio. Bydd arwydd i'r perwyl mai at ddefnydd preifat y maent, a bydd archwilio manwl o unrhyw wastraff arall gyda'r bwriad o ddwyn achos llys.

- 2) Adroddodd Alan Evans y bydd biniau newydd yn cael eu gosod wrth y Wenallt.
- 3) Cafwyd trafodaeth ar y meini sydd wedi ymddangos ar ochr y ffordd a chyfarwyddwyd y Clerc i wneud ymholiadau gydag Adran y Priffyrdd.
- 4) Dywedodd Alan Evans y byddai yn gwirio y bydd tarmac yn cael ei roi ar hyd ffordd Y Glyn, ar ben y concriid a osodwyd dros dro.

Amser gorffen: 9.00pm

Lis Puw